

Ystyried gadael cynllun pensiwn eich gweithle?

Os gallwch chi fforddio gwneud hynny, mae aros yng nghynllun pensiwn eich cyflogwr fel arfer yn syniad da. Os byddwch yn gadael, efallai y byddwch yn colli allan ar arian y mae gennych hawl iddo.

Pam ddylwn i dalu i mewn i pensiwn?

- Cynllunirpensiwn i roi arian i chi fyw arno ar ôl ymddeol, fel y gallwch roi'r gorau i weithio neu leihau eich oriau. Fel arfer caiff eich arian ei fuddsoddi a'i reoli ar eich rhan gangweithwyr proffesiynol, felly dylai dyfu dros amser.
- Bydd eich cyflogwr yn talu o leiaf 3% o'ch cyflog i mewn i'ch pensiwn yn y rhan fwyaf o achosion, felly mae gadael eich pensiwn fel gwrthod cyflog. Rhaid i'ch cyflogwr dalu i mewn yn awtomatig os ydych rhwng 22 a'ch oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn ennill dros £10,000 y flwyddyn. Os ydych chi rhwng 17 a 75 ac yn ennill mwy na £6,240 y flwyddyn, rhaid iddynt dalu i mewn os gofynnwch iddynt wneud hynny. Os ydych yn ennill llai na £6,240 y flwyddyn, nid oes rhaid i'ch cyflogwr gyfrannu ond mae'n rhaid iddo adael i chi ymuno os gofynnwch.
- Gallech hefyd gael gostyngiad treth ar eich cyfraniadau pensiwn. Mae hyn yn golygu eich bod naill ai'n cael mwy yn eich cyflog mynd adref drwy dalu llai o dreth neu fwy o arian yn mynd i mewn i'ch cynllun pensiwn. Dysgwch ragor yn: moneyhelper.org.uk/rhyddhad-treth

Os ydych yn talu treth cyfradd sylfaenol (20%), y gost i chi gynilo £100 i'ch pensiwn fydd £80 fel arfer.

Efallai y byddwch yn colli allan ar arian am ddim a budd-daliadau eraill

Os byddwch yn gadael cynllun pensiwn eich cyflogwr, neu'n rhoi'r gorau i dalu i mewn am gyfnod, byddwch fel arfer yn colli allan ar gyfraniadau cyflogwr, gostyngiad treth a thwf buddsoddiad. Gall hyn wneud gwahaniaeth mawr i'r swm a fydd gennych ar ôl ymddeol.

Bydd y rhan fwyaf o bensiynau hefyd yn eich talu os bydd angen i chi ymddeol yn gynnar oherwydd salwch a bydd yn talu pobl eraill os byddwch yn marw. Efallai na fydd hyn yn digwydd os byddwch yn gadael y cynllun.

Enghraifft

Os byddwch chi a'ch cyflogwr yn cynilo £200 i mewn i pensiwn cyfraniadau diffiniedig bob mis, yn 65 oed qallai eich cronfa fod yn werth tua:

- £316,000 os ydych yn dechrau yn 20 oed
- £224,000 os ydych yn dechrau yn 30 oed
- £146,000 os ydych yn dechrau yn 40 oed
- £80,000 os ydych yn dechrau yn 50 oed.

Er mwyn eu cyfrifo, rydym yn gwneud rhai rhagdybiaethau ar bethau fel cyfraddau twf, cyfradd chwyddiant, ffioedd buddsoddi, a hyd y buddsoddiad.

Amcangyfrifon yn unig yw'r holl ffigurau. Peidiwch â'u defnyddio i wneud unrhyw benderfyniadau.

Dydw i ddim yn bwriadu rhoi'r gorau i weithio, pam fod angen pensiwn arnaf?

Hyd yn oed os nad ydych chi'n bwriadu rhoi'r gorau i weithio, gallai cael cronfa o arian pan fyddwch chi'n hŷn olygu eich bod chi'n gwneud mwy o'r pethau rydych chi'n eu mwynhau.

Fel arfer gallwch gael mynediad at eich cynilion pensiwn o 55 oed (57 o fis Ebrill 2028). Mae pensiwn hefyd wedi'i gynllunio i roi incwm i chi os oes angen i chi roi'r gorau i weithio'n gynnar oherwydd salwch.

Byddaf yn derbyn pensiwn gan y llywodraeth - pam ddylwn i orfod talu ddwywaith?

Ar ei ben ei hun, mae Pensiwn y Wladwriaeth yn annhebygol o roi digon o arian i chi ar gyfer ymddeoliad cyfforddus. Yr uchafswm wythnosol hyd at Ebrill 2026 yw £230.25.

Bydd angen i chi hefyd aros nes eich bod yn cyrraedd eich oedran Pensiwn y Wladwriaeth i wneud cais amdano, a allai fod yn 68 oed neu'n hŷn.



Os na allwch fforddio eich cyfraniadau pensiwn, dywedwch wrth eich cyflogwr

Os ydych yn poeni am arian, siaradwch â'ch cyflogwr i weld a allwch chi dalu llai fel cyfraniad pensiwn.

Fel arfer mae angen talu o leiaf 8% o'ch cyflog i mewn i'ch pensiwn, gyda'ch cyflogwr yn cyfrannu o leiaf 3%.

Os bydd eich cyflogwr yn talu mwy i mewn, efallai y byddwch yn gallu talu llai i mewn – yn hytrach na stopio. Os byddwch yn gostwng eich taliadau, adolygwch eich sefyllfa ariannol yn rheolaidd i weld a allwch chi fforddio eu cynyddu eto.

Ewch i gael cymorth cyn i chi benderfynu.

Siaradwch â rhywun rydych chi'n gyfforddus ag ef i gael eu barn ar yr hyn y dylech ei wneud. Gall hyn fod yn gyflogwr, cydweithwyr, ffrindiau neu deulu.

Gallwch hefyd siarad ag un o'n harbenigwyr pensiwn am gymorth am ddim, gan gynnwys beth sy'n digwydd os byddwch yn gadael eich cynllun pensiwn. Ffoniwch **0800 011 3797** – rydym ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener, 9am i 5pm.

Pryderon eraill am arian? Mynnwch gymorth am ddim

Os yw eich pryderon ariannol yn fwy na'ch cyfraniadau pensiwn yn unig, gallwch ffonio ein llinell gymorth arweiniad arian cyfrinachol am ddim ar **0800 138 7777**. Efallai bod atebion eraill y gallwn ni eu hegluro.

Mae llawer o adnoddau a gwybodaeth a all eich helpu chi ar ein gwefan: moneyhelper.org.uk/cy.

Os byddwch yn gadael eich cynllun pensiwn, ni fyddwch yn colli eich cynilion

Os byddwch yn penderfynu gadael eich cynllun pensiwn, mae'r holl arian yn dal i fod yn eiddo i chi – hyd yn oed y symiau a dalwyd i mewn gan eich cyflogwr. Bydd eich darparwr pensiwn yn parhau i reoli eich arian hyd nes y byddwch yn gallu cael mynediad iddo.

Os hoffech ailymuno â'ch cynllun pensiwn yn ddiweddarach, gofynnwch i'ch cyflogwr beth sydd angen i chi ei wneud. Efallai y bydd rhai cynlluniau yn caniatáu i chi ailymuno ar unrhyw adeg, ond efallai mai dim ond unwaith y flwyddyn y bydd eraill yn caniatáu hynny.

Gallwch hefyd ddewis trosglwyddo eich pensiwn i ddarparwr gwahanol. Er enghraifft, os byddwch yn newid swydd, gallech ystyried symud eich cynilion pensiwn i gynllun eich cyflogwr newydd.

HelpwrArian

Mae HelpwrArian yn annibynnol ac yn cael ei gefnogi gan y llywodraeth i'ch helpu i wneud y gorau o'ch arian. Rydym yn rhoi arweiniad arian a phensiynau diduedd am ddim i bawb ledled y DU – ar-lein a thros y ffôn.

Ymwelwch â ni yn moneyhelper.org.uk/cy

Neu cysylltwch â ni ar:

Ffôn

Arweiniad ar arian

DU: **0800 138 7777**

os ydych y tu allan i'r DU

+44 20 3553 2279 Llun – Gwe 8am to 6pm

Arweiniad ar bensiynau

DU: **0800 011 3797**

os ydych y tu allan i'r DU

+44 20 7932 5780 Llun – Gwe 9am to 5pm

Gwe-sgwrs:

moneyhelper.org.uk/sgwrsarian

moneyhelper.org.uk/sgwrs-pensiynau

WhatsApp

+44 7701 342744 (arweiniad ar arian yn unig)

Online communities

Ymunwch â'n grwpiau Facebook am gymorth:

moneyhelper.org.uk/cymunedau-ar-lein

I weld yr ystod llawn o ganllawiau sydd ar gael, ac i ofyn am gopiau, ewch i moneyhelper.org.uk/canllawiau-print-am-ddim

**Helpwr
Arian**

Gan y



**Gwasanaeth
Arian a
Phensiynau**

Mae'r Cyhoeddiad hwn ar gael yn y Saesneg.

Mae galwadau o'r DU am ddim. Er mwyn ein helpu i gynnal a gwella ein gwasanaeth, efallai y byddwn ni'n recordio neu fonitro galwadau.

Fformatau hygyrch

Os hoffech gael y canllaw hwn mewn Braille, print bras neu fformat sain, cysylltwch â ni ar y rhifau uchod. Gwybodaeth yn gywir ar adeg argraffu (Ebrill 2025). Adolygir y canllawiau hyn unwaith y flwyddyn.

© HelpwrArian Ebrill 2025

Cymraeg



Cyf: TLWPS_Apr25_Ed1_Welsh